# Priodasau

Nant Gwrtheyrn



Llun: Steve Gerrard Photography

# Croeso

**Wedi ei leoli ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn gyda golygfeydd hudolus o Fae Porthdinllaen, mae hen bentref chwarelyddol Nant Gwrtheyrn yn lleoliad gwirioneddol ddelfrydol ar gyfer eich diwrnod arbennig. Mae gan y Nant draeth hir, capel, neuadd odidog i gynnal brecwast priodas a pharti nos ynghyd â llety 4*.**

Mae'r safle'n cynnig yr holl gyfleusterau angenrheidiol ar gyfer eich diwrnod perffaith. Mae capel trwyddedig ar y safle i gynnal priodasau crefyddol neu gellir defnyddio Ystafell Rhys (yn y Neuadd) neu'r Sgubor ar gyfer gwasanaethau a phartneriaethau sifil.

Rydym yn cynnal y wledd briodas a'r parti nos yn y Neuadd ac fe gynigir llety en-suite 4* i'r gwesteion yn ein bythynnod chwarelwyr gerllaw.

Gyda gwasanaeth o'r radd flaenaf, bwyd a diod ardderchog ynghyd â golygfeydd arfordirol arbennig, mae pentref unigryw a hudolus Nant Gwrtheyrn yn lleoliad perffaith ar gyfer ymlacio a mwynhau'r dathliadau gyda'ch teulu a'ch ffrindiau.

Rydym wedi creu pecynnau unigol ar eich cyfer. Ein nod yw eich cynorthwyo i sicrhau bod eich diwrnod arbennig yn achlysur bythgofiadwy i chi a'ch gwesteion.



Llun: Lowri Ellen Photography

Cydlynydd Priodas

Helo, Emma ydw i, y Cydlynydd Priodasau a Digwyddiadau yma yn Nant Gwrtheyrn.

Mae fy mlynyddoedd o brofiad yn rhedeg fy musnes fy hun wedi rhoi sgiliau trefnu cryf i mi er mwyn sicrhau bod pob manylyn o'ch priodas yn Nant Gwrtheyrn yn rhedeg yn esmwyth.

Rwyf wedi mwynhau rhedeg nifer fawr o briodasau unigryw yn llwyddiannus yma ac edrychaf ymlaen at gwrdd â chi i drafod eich gofynion ar gyfer eich diwrnod arbennig.



Emma Wynne
Cydlynydd Priodas

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ein Lleoliadau | 04 |
| Ein Pecynnau | 06 |
| Bwydlenni | 10 |
| Pecynnau Diod | 20 |
| Llety | 22 |
| Gwybodaeth Ychwanegol | 26 |
| Map Safle | 28 |



# Ein Lleoliadau

Llun: Marie Lloyd Photography

## Y Neuadd ac Ystafell Rhys

Mae ein Neuadd yn lleoliad perffaith ar gyfer eich gwledd briodasol.

**Capasiti mwyaf:**
Dydd: 144 o westeion
Nos: 250 o westeion

Gellir cynnal gwasanaeth sifil gyda hyd at 100 o westeion yn Ystafell Rhys. Drwy logi byrddau ychwanegol, gellir addasu'r ystafell er mwyn cael mwy o westeion*.





## Y Capel

Gellir cynnal gwasanaeth crefyddol ar gyfer hyd at 100 o westeion yn ein Capel trawiadol – adeilad sy'n cyfuno pensaernïaeth draddodiadol a chyfoes.



## Sgubor

Gellir cynnal gwasanaeth sifil ar gyfer hyd at 80 o westeion yn y Sgubor. Fe'i hadeiladwyd yn 2015 ac mae'n adeilad perffaith ar gyfer seremoni fechan.

*Codir ffi ychwanegol am ragor o fyrddau a chadeiriau

# Ein Pecynnau



Llun: Amy & Omid Photography





## Pecyn Penwythnos

Llogi'r safle priodas gan gynnwys defnydd o'r Neuadd / Ystafell Rhys, y Capel neu'r Sgubor, wedi ei neilltuo ar eich cyfer chi yn unig o 2:00yp dydd Gwener hyd at 12:00yb dydd Sul.

**Defnydd llawn o wasanaethau arbenigol ein cydlynydd priodasau a'r tîm cyn ac yn ystod y briodas yn ôl y galw.**

Defnyddio safle'r briodas am ddau ddiwrnod llawn ar gyfer eich dathliadau, o'r prynhawn Gwener hyd at y bore Sul.

Mynediad i'r Neuadd rhwng 2:00yp a 6:00yh ar y dydd Gwener er mwyn paratoi'r lleoliad cyn y diwrnod mawr.

Bydd bwthyn chwaethus Caerffili (sydd wedi ei adnewyddu yn ddiweddar), gyda golygfa odidog o'r môr, ar gael i'r briodferch neu'r priodfab ar y noson cyn y briodas, sy'n berffaith os bydd unrhyw benderfyniadau munud olaf angen eu cwblhau. Mae Caerffili hefyd ar gael i'r cwpwl priod ar gyfer noson y briodas.

Bydd modd i'ch gwesteion aros yn ein llety 4* drwy gydol y penwythnos.

Defnydd o offer PA sylfaenol ar gyfer cerddoriaeth gefndirol, goleuo a meicroffon yn y Neuadd. Darperir llenni safonol hefyd. Gallwch fod yn dawel eich meddwl na fydd unrhyw ddigwyddiad arall yn y Neuadd ar benwythnos eich priodas.

# Pecyn Diwrnod
## Dydd Sadwrn

Llogi'r safle priodas gan gynnwys defnydd o'r Neuadd/Ystafell Rhys, y Capel neu'r Sgubor, wedi ei neilltuo ar eich cyfer chi yn unig o 11:00yb dydd Sadwrn hyd at 12:00yp dydd Sul.

**Defnydd llawn o wasanaethau arbenigol ein cydlynydd priodasau a'r tîm cyn ac yn ystod y briodas yn ôl y galw.**

Rydych yn caniatáu i'r Nant gynnal digwyddiad arall yn y Neuadd ar y noson cyn eich priodas.

Mynediad i'r Neuadd 11:00yb ar fore eich priodas. Bydd bwthyn chwaethus Caerffili (sydd wedi ei adnewyddu yn ddiweddar), gyda golygfa odidog o'r môr, ar gael i'r cwpwl priod ar gyfer noson y briodas.

Bydd modd i'ch gwesteion gael mynediad i'r tai o 10:00yb ymlaen ar ddiwrnod eich priodas.

Defnydd o offer PA sylfaenol ar gyfer cerddoriaeth gefndirol, goleuo a meicroffon yn y Neuadd. Darperir llenni safonol hefyd.

Ein Pecynnau

# Pecyn Canol Wythnos
## Dydd Mawrth a Dydd Mercher

Llogi'r safle priodas gan gynnwys defnydd o'r Neuadd / Ystafell Rhys, y Capel neu'r Sgubor, wedi ei neilltuo ar eich cyfer chi yn unig o 11:00yb ar ddydd eich priodas hyd at 12:00yp ar y diwrnod canlynol.

**Defnydd llawn o wasanaethau arbenigol ein cydlynydd priodasau a'r tîm cyn ac yn ystod y briodas yn ôl y galw.**

Rydych yn caniatáu i'r Nant gynnal digwyddiad arall yn y Neuadd y noson cyn eich priodas.

Mae'r Pecyn Canol Wythnos yn rhoi mynediad i chi i'r Neuadd o 11:00yb ar fore eich priodas er mwyn gosod popeth yn ei le ar gyfer y diwrnod mawr.

Bydd bwthyn chwaethus Caerffili (sydd wedi ei adnewyddu yn ddiweddar), gyda golygfa odidog o'r môr, ar gael i'r cwpwl priod ar gyfer noson y briodas.

Bydd modd i'ch gwesteion gael mynediad i'r tai o 10:00yb ymlaen ar ddiwrnod eich priodas.

Defnydd o offer PA sylfaenol ar gyfer cerddoriaeth gefndirol, goleuo a meicroffon yn y Neuadd. Darperir llenni safonol hefyd.





# Bwydlenni





**Canapés**
Dewiswch 3 opsiwn.

Holwch hefyd ynghylch unrhyw ofynion dietegol.

- Tomato a tsili melys ar dost (Ll)
- Tarten caws gafr a nionyn wedi ei garameleiddio (Heb glwten / Ll)
- Roulade bychan o eog wedi ei fygu a chaws hufen (Heb glwten)
- Sgwariau porc hoisin gludiog
- Selsig gyda mwstard grawn cyflawn a mêl

* Mae'r bwydlenni'n gywir ar adeg cyhoeddi'r pecyn ond gallant newid



# Pecyn Gwrtheyrn

Mae'r cadeiriau yma ar gael am gost ychwanegol, cysylltwch am fwy o wybodaeth

Llun:
Sophie Wynne Photography





**Dewiswch un opsiwn ar gyfer pob cwrs ac opsiwn llysieuol ar gyfer unrhyw westeion sy'n dymuno hynny.**

Holwch hefyd ynghylch unrhyw ofynion dietegol.

### Dewisiadau cwrs cyntaf

- Cawl cennin a thatws wedi ei weini â bara wedi ei bobi a menyn (Heb glwten / Ll)
- Pâté Macrell wedi ei fygu gyda thost brioche a salad gwyrdd

### Dewisiadau prif gwrs

- Twrci rhost wedi ei weini â stwffin saets a nionyn, tatws rhost, llysiau tymhorol a jus cyfoethog
- Tarte Tatin tomato wedi ei rostio â tsili melys, wedi ei weini ar wely o cwinoa a ffacbys (Heb glwten / Ll)

### Dewisiadau pwdin

- Cacen gaws fanila gyda chompot ffrwythau
- Crème brûlée 'Merlyn' wedi ei weini â bisged siocled
- Tarten lemwn wedi ei gweini â hufen ffres a chompot mafon
- Cacen gaws heb glwten ar gael ar gais

* Mae'r bwydlenni'n gywir ar adeg cyhoeddi'r pecyn ond gallant newid



# Pecyn Rhys

Llun: Fox & Bear Photography





**Dewiswch un opsiwn ar gyfer pob cwrs ac opsiwn llysieuol ar gyfer unrhyw westeion sy'n dymuno hynny.**

Holwch hefyd ynghylch unrhyw ofynion dietegol.

**Dewisiadau cwrs cyntaf**

- Cawl tomato wedi ei rostio a tsili melys wedi ei weini â rholyn bara crwst (Heb glwten/Ll)
- Carpaccio betys gyda chaws gafr wedi ei grilio wedi ei weini â salad gwyrdd (Ll)
- Parfait iau cyw iâr gyda dresin Cointreau ac oren wedi ei weini â thost surdoes a siytni cartref

**Dewisiadau prif gwrs**


- Syrlwyn cig eidion rhost wedi ei weini â thatws rhost, llysiau tymhorol, pwdin Swydd Efrog a jus cyfoethog
- Supreme cyw iâr wedi ei weini â thatws newydd a llysiau tymhorol gydag olew persli a saws madarch a gwin gwyn
- Wellington pwmpen cnau menyn, corbys ac almon wedi ei weini â thatws rhost a saws tomato sbeislyd (Ll)

**Dewisiadau pwdin**

- Cacen gaws fanila gyda chompot ffrwythau
- Crème brûlée 'Merlyn' wedi ei weini â bisged siocled
- Tarten lemwn wedi ei gweini â hufen ffres a chompot mafon
- Brownî siocled a chyffug gyda hufen arllwys
- Cacen gaws heb glwten ar gael ar gais

* Mae'r bwydlenni'n gywir ar adeg cyhoeddi'r pecyn ond gallant newid

# Pecyn Meinir




## Dewiswch un opsiwn ar gyfer pob cwrs ac opsiwn llysieuol ar gyfer unrhyw westeion sy'n dymuno hynny.

Holwch hefyd ynghylch unrhyw ofynion dietegol.

**Dewisiadau cwrs cyntaf**

- Cawl hufennog corbenfras wedi ei fygu wedi ei weini â rholyn bara crwst
- Salad eog wedi ei fygu wedi ei weini â hufen caws a wyau iâr fôr
- Tarte Tatin nionyn coch a betys wedi eu rhostio gyda salad a radis (Ll)
- Cawl moron a choriander wedi ei weini â rholyn bara crwst (Ll)

**Dewisiadau Sorbet**

- Siampên, Lemwn, neu Gyrains Duon

**Dewisiadau prif gwrs**

- Syrlwyn cig eidion rhost wedi ei weini â thatws rhost, llysiau tymhorol, pwdin Swydd Efrog a jus cyfoethog
- Rwmp cig oen wedi ei goginio'n araf a'i weini ar wely o datws stwnsh, llysiau tymhorol, tomatos bach wedi eu rhostio a jus mintys cyfoethog
- Lwyn porc gyda jus seidr afal ar wely o afalau wedi eu rhostio wedi ei weini â llysiau tymhorol a thatws newydd
- Wellington pwmpen cnau menyn, corbys ac almwn wedi ei weini â thatws parmentier a saws tomato sbeislyd (Ll)

**Dewisiadau pwdin**

- Pwdin taffi gludiog gyda saws caramel hallt a hufen ffres
- Cacen gaws fanila gyda chompot ffrwythau
- Crème brûlée 'Merlyn' wedi ei weini â bisged siocled
- Tarten lemwn wedi ei gweini â hufen ffres a chompot mafon
- Brownî siocled a chyffug gyda hufen arllwys
- Cacen gaws heb glwten ar gael ar gais

* Mae'r bwydlenni'n gywir ar adeg cyhoeddi'r pecyn ond gallant newid

# Pecynnau wedi eu teilwra

Eisiau rhywbeth fymryn yn wahanol?

Rydym yn gallu darparu ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau. Beth am gael un o'n byrddau pori? Mae modd eu haddasu ar gyfer amrywiaeth o anghenion neu themâu.

Mae'r fwydlen yn newid yn dymhorol ac yn ôl yr hyn sydd ar gael felly cysylltwch am fwy o wybodaeth.



**Sampl o fwydlen A**

- Tafelli ham cartref wedi ei orchuddio â sglein masarn
- Tafelli twrci cartref wedi ei bastio â menyn
- Dewis o rôl a bara ffres
- Salad a cholslo cartref
- Salad pasta tomato a basil
- Salad tatws
- Quiche llysieuol
- Brownis siocled
- Cacen gaws mafon a prosecco

Bydd yr uchod yn cael eu gweini gyda digon o salad ffres.

**Sampl o fwydlen B**

- Eog wedi'i goginio gartref
- Cig eidion cartref
- Tafelli ham cartref wedi ei orchuddio â sglein masarn
- Tafelli twrci cartref wedi ei bastio â menyn
- Dewis o rôl a bara ffres
- Salad a cholslo cartref
- Salad pasta tomato a basil
- Salad tatws
- Salad gwenith yr hydd (Heb glwten)
- Salad cyri ffacbys a cwinoa
- Salad Groeg gyda feta
- Dewis o quiches
- Brownis siocled
- Tarten lemwn
- Cacen gaws mafon a prosecco

Bydd yr uchod yn cael eu gweini gyda digon o salad ffres.

Ein Pecynnau

# Prydau Gyda'r Nos

Dewisiwch un opsiwn ar gyfer bwyd nos **ac opsiwn llysieuol ar gyfer unrhyw westeion sy'n dymuno hynny.**

Ciabatta cig eidion wedi ei weini â winwns wedi eu ffrio â horseradish hufennog

Cyri cyw iâr wedi ei weini â reis basmati, siytni mango a bara naan

Cyri llysiau wedi ei weini â reis basmati, siytni mango a bara naan (Ll)

Rôl porc wedi ei dynnu mewn saws chipotle gyda stwffin saets a nionyn, hufen sur a guacamole

Rôl gyda jackfruit wedi ei dynnu mewn saws chipotle gyda stwffin saets a nionyn, hufen sur a guacamole

Dewis brechdanau:
- Twrci a llugaeron
- Ham
- Wyau a chress
- Caws a siytni
- Cyw iâr coronation
- Opsiwn fegan ar gael

**Llun: Rhys Beddoe**



# Pecynnau Diod





## Pecyn Siampên

- Gwydryn o siampên wedi ei weini â mefus / mafon wrth gyrraedd
- Hanner potel o win gwyn, coch neu rosliw
- Gwydryn o siampên ar gyfer y llwnc destun - Champagne Brut 'Tanners'

## Pecyn Cava

- Gwydryn o Cava wedi ei weini â mefus / mafon wrth gyrraedd
- Hanner potel o win gwyn, coch neu rosliw
- Gwydryn o Cava ar gyfer y llwnc destun – Cava Brut 'Tanners'

## Pecyn Prosecco

- Gwydryn o Prosecco wrth gyrraedd – Amori Prosecco Spumante / Ita Prosecco Rose
- Hanner potel o win gwyn, coch neu rosliw
- Gwydryn o Prosecco ar gyfer y llwnc destun – Amori Prosecco Spumante / Ita Prosecco Rose

## Pecyn Gwin Pefriog

- Gwydryn o win pefriog wrth gyrraedd
- Gwydryn o win gyda'r bwyd – gwyn, coch neu rosliw
- Gwydryn o win pefriog ar gyfer y llwnc destun

## Pecyn dialcohol

- Gwydryn o fizz blodau'r ysgaw neu Bucks Fizz wrth gyrraedd (dialcohol)
- Hanner potel o win (dialcohol)
- Gwydryn o fizz blodau'r ysgaw neu Bucks Fizz (dialcohol) ar gyfer y llwnc destun

## Pecyn Crefft Cymreig

- Gwydryn o fizz marmalêd oren 'Aber Falls' neu botel o 'Cwrw Llŷn'
- Detholiad o boteli 'Cwrw Llŷn', seidr lleol a fizz blodau'r ysgaw a llus 'Afallon Môn' ar y byrddau
- Gwydryn o Cava ar gyfer y llwnc destun

## Eisiau rhywbeth fymryn yn wahanol?

Beth am wydryn o fizz blodau'r ysgaw neu bellini wrth groesawu gwesteion (opsiynau dialcohol ar gael hefyd) a dewis o blith ein detholiad helaeth o winoedd neu gwrw a seidr lleol fel opsiwn amgen ar gyfer y byrddau (wedi eu prisio fesul un).

*Gall yr union frand newid yn unol ag argaeledd ond bydd yn cael ei gyfnewid am gynnyrch cyffelyb

# Llety



Llun: David Ryle / Visit Wales





**Llety unigryw ar Benrhyn Llŷn**
Yn wahanol i westai arferol, mae Nant Gwrtheyrn yn cynnig llety cwbl unigryw. Profwch hud a lledrith y Nant wrth aros mewn lleoliad sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn niwylliant a threftadaeth ein gwlad. Profwch fyd natur, daeareg, hanes a'r iaith Gymraeg i gyd o fewn y dyffryn arbennig hwn.

## Caerffili



## Trem y Môr



## Tŷ Canol



Llun: Sophie Wynne Photography

# Caerffili

**Fel rhan o'r pecyn, bydd y bwthyn priodasol Caerffili (gwely a brecwast) gyda golygfa o'r môr ar gael i'r cwpwl priod (nifer y nosweithiau yn ddibynnol ar eich pecyn priodas).**

Mae lolfa'r bwthyn priodasol yn lle delfrydol i chi ymlacio a chadw eich anrhegion priodas.

Mae llety ar gael i'ch gwesteion aros yn ein 30 o ystafelloedd gwely en-suite unigol, gyda lle i 60 o oedolion aros am leiafrif o ddwy noson. Gallwn hefyd ddarparu llefydd ychwanegol i blant yn ein hystafelloedd teulu gyda'r defnydd o wlâu soffa.

Darperir llety en-suite gwely a brecwast yn hen fythynnod y chwarelwyr 4* (Croeso Cymru) sydd wedi eu hadnewyddu i safon uchel.









Llun: Tony Fanning Photography



# Tŷ Canol

**Mae llety ychwanegol ar gael (yn amodol ar argaeledd) ym mloc llety Tŷ Canol.**
Mae Tŷ Canol, gyda'i ystafelloedd mawr, yn berffaith ar gyfer grwpiau o ffrindiau neu deuluoedd.


Fel rhan o'n rhaglen o ddatblygu ein llety yn barhaus, mae'n bleser gennym hefyd gynnig pedwar stiwdio en-suite moethus i'n gwesteion.






**Bythynnod Hunanarlwyo**
Mae gennym dri bwthyn hunanarlwyo ar gael i'w llogi ar gyfer penwythnos eich priodas (am leiafrif o dair noson, yn ddibynnol ar argaeledd). Gall y bythynnod ddal hyd at 18 oedolyn gyda gwlâu soffa yn cael eu defnyddio ar gyfer y plant.

Mae'r llety ar gael i'r gwesteion o 4:00yp ymlaen a gofynnir i chi adael y tai erbyn 11:00yb ar fore olaf eich arhosiad.





Llun: Sophie Wynne Photography



# Gwybodaeth Ychwanegol

## Tynnu lluniau
Mae'r safle 200 acer gyda'i olygfeydd arfordirol yn lleoliad delfrydol ym mhob tymor ac yn gefndir perffaith ar gyfer eich lluniau priodasol.

## Parcio
Mae maes parcio am ddim gyda lle i hyd at 80 o geir ar gael ar gyfer eich gwesteion.

## Pris arbennig i blant
Caiff plant rhwng 3 a 10 oed fwynhau'r wledd briodasol am hanner y pris a chaiff plant sy'n 2 oed ac iau fwyta am ddim.

## Telerau
Cyfrifoldeb y pâr sy'n priodi yw trefnu gofynion y seremoni eu hunain, hynny yw y cofrestrydd ac ar gyfer seremoni grefyddol, y Gweinidog / Ficer.

Cynghorwn chi i wneud hyn cyn gynted ag yr ydych wedi archebu dyddiad eich priodas.

Ni chaniateir defnydd o fochyn rhost, barbeciw na rhaeadrau siocled (chocolate fountains).. Rhaid prynu pob diod trwy Nant Gwrtheyrn a gwnawn ein gorau i ateb eich gofynion trwy ein darparwyr gwin a chwrw profiadol.

Rydym yn eich cynghori i drefnu yswiriant priodas personol ar gyfer eich diwrnod.

## Oriau'r dathliad
**Priodas dydd Gwener neu ddydd Sadwrn:**
Amser olaf i archebu diod alcoholig yn y bar yw hanner nos. Rhaid i bob adloniant / cerddoriaeth orffen am 12:30yb.
Mae'n rhaid i bawb adael y Neuadd dim hwyrach nag 1:00yb.

**Priodas Ganol Wythnos (dydd Llun i ddydd Iau):**
Amser olaf i archebu diod alcoholig yn y bar yw 11:15yh. Rhaid i bob adloniant / cerddoriaeth orffen erbyn 12:30yb. Mae'n rhaid i bawb adael y Neuadd dim hwyrach na hanner nos.

## Archebu Llety
Dylid archebu eich lle a thalu'n llawn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau eich llety yn y Nant. Ewch i www.nantgwrtheyrn.org i weld ein telerau cyfredol.

## Trefniadau Terfynol
Dylid cadarnhau trefniadau terfynol eich priodas, gan gynnwys y bwydlenni ac unrhyw ofynion ychwanegol, gyda'r Cydlynydd Priodasau o leiaf 8 wythnos cyn y briodas. Dylid cadarnhau'r niferoedd terfynol fydd yn bresennol ar y diwrnod gyda'r Cydlynydd Priodasau 4 wythnos cyn y briodas. Dyma'r nifer fydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo eich archeb.

## Y noson cyn eich diwrnod mawr
Mae ein cyfleusterau ar gael i chi, eich teuluoedd a'ch ffrindiau fwynhau'r noson cyn y briodas*. Gallwn baratoi bwydlen arbennig ac agor y bar ar eich cyfer. Dyma gyfle gwych i'ch gwestai ymlacio mewn awyrgylch arbennig a dod i adnabod ei gilydd cyn y diwrnod mawr. Mae llety hefyd ar gael i westeion y noson cynt. Gwnewch eich dathliad yn benwythnos cyfan o ddathlu.

*Dibynnol ar y dewis o becyn priodas
*Y gofyniad lleiaf yw 40 o westeion

## Bwydlen sampl nos Wener
- Lasagne wedi ei weini â sglodion cartref a bara garlleg
- Cyri sbigoglys, tatws melys a mango wedi ei weini â reis basmati a bara naan (Ll)
- Sgampi gyda sglodion a phys
- Stecen gyda sglodion a phys
- Asennau breision barbeciw gyda nionod wedi eu ffrio a cholslo

# Map Safle





Nant Gwrtheyrn
Llithfaen, Pwllheli,
Gwynedd LL53 6NL

01758 750334
www.nantgwrtheyrn.org